# IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET

**(Microsft Teams Meeting/ Hybrid Meeting in Council Chamber)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.James** |
| **Cynghorwyr**: | C.Galsworthy, R.G.Jones, R.Phillips, S.Pursey, A.J.Richards, C.Phillips a/ac C.Clement-Williams |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | H.Jones, C.Griffiths, S.Rees, N.Blackmore, H.Lewis, T.Davies a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr S.K.Hunt, J.Hurley a/ac A.Llewelyn |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

4. **CYNHYRCHU INCWM A'R BROSES HYD YMA**

   Derbyniodd aelodau gyflwyniad gan swyddogion gyda'r diweddaraf am gynnydd Cynhyrchu Incwm. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys

gwybodaeth cefndir am rôl y Cydlynydd Masnachol ac yna esboniad o'r cynnydd ar brosiectau fel y Bartneriaeth Llochesi Bysus a Noddi Cylchfannau yn ogystal ag arbedion a mesurau effeithlonrwydd a wnaed. Tynnodd swyddogion sylw at ddigwyddiadau ar y gweill a sut byddai ganddynt y potensial i gynhyrchu incwm, elwa cymunedau a busnesau yn ogystal â sut mae noddwyr wedi helpu i dalu costau ar gyfer digwyddiadau eraill. Roedd y cyflwyniad hefyd yn cynnwys prosiectau eraill a chyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm.

Gofynnodd aelodau sut y byddai'r cyllid a gynhyrchwyd gan y llochesi bysus newydd yn cael ei wario. Esboniodd swyddogion fyddai'r incwm yn mynd yn ôl i'r maes gwasanaeth a byddai'n cael ei gynnwys yng nghyllideb y Llochesi Bysus.

Roedd gan aelodau ddiddordeb mewn darganfod a oedd cyfleoedd i hysbysebu ar Fabian Way ac ar hyd y rheilffordd wedi cael eu harchwilio. Dywedodd y swyddogion wrth yr aelodau fod ymholiadau wedi cael eu gwneud ynghylch y rheini sy'n berchen ar dir ar hyd Fabian Way a'r hysbysfyrddau ar ymyl y ffordd. Nodwyd bod nifer o gwmnïau'n awyddus i osod sgriniau digidol yn yr ardal honno. Dywedodd swyddogion y byddant yn ystyried hysbysebu ar hyd Fabian Way yn ystod y broses gynllunio. Esboniodd swyddogion hefyd nad yw rhai cefnffyrdd dan reolaeth awdurdodau lleol a gallant fod o dan reolaeth Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA).

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod wedi siarad â'u cymheiriaid yn Abertawe am y baneri ar bolion lampau ar Fabian Way wrth deithio i Abertawe. Roedd gan Abertawe ganiatâd gan yr adran gynllunio i osod baneri ar y llain ganol wrth deithio i Abertawe. Bydd swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud rhywbeth tebyg ar Fabian Way o fewn ffiniau Castell-nedd Port Talbot wrth ystyried goblygiadau cynllunio.

Codwyd pryderon am ddichonoldeb hysbysebu ar y cylchfannau a theimlai bod posibilrwydd y gallai bod yn hyll.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch Cynhyrchu Incwm a'r potensial ar gyfer defnyddio gwasanaethau statudol i gynhyrchu incwm. Nodwyd nad oedd cynhyrchu incwm drwy wasanaethau statudol wedi cael ei archwilio, fodd bynnag, byddent yn ystyried hwn yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaethau ynghylch seremonïau gwobrwyo, esboniodd swyddogion strwythur y gwobrwyon. Nodwyd bod y noddwyr yn prynu byrddau ar hyn o bryd sy'n golygu nad oedd angen i enillwyr y

gwobrwyon a'u teuluoedd dalu i fod yn bresennol ar gyfer y digwyddiad. Mae hwn yn lliniaru unrhyw bwysau ariannol gan fod digwyddiadau o'r math hwn yn gallu bod yn ddrud.

Esboniodd swyddogion fod y gwaith a wnaed ym Margam a'r Gnoll wedi bod yn enillfawr iawn, a rhoddwyd cefnogaeth i geisio cael mwy o staff er mwyn galluogi rhagor o waith rhagweithiol i geisio ennill refeniw hysbysebu.

Rhoddodd aelodau clod i'r swyddogion am eu gwaith o fewn y prosiectau a'u hymdrechion i Gynhyrchu Incwm yn ystod cyfnodau heriol o ran y gyllideb.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r cyflwyniad.

## 5. **YMGYNGHORIAD AR GYNIGION CYLLIDEBOL 2023-24**

Derbyniodd aelodau'r pwyllgor graffu Cynigion Cyllidebol Drafft ar gyfer 2023/24 a oedd yn caniatáu i'r pwyllgor craffu fwydo i mewn i'r broses ymgynghori.

Gofynnodd Cadeirydd Craffu i aelodau'r pwyllgor craffu ddarparu unrhyw awgrymiadau ar gyfer cynhyrchu incwm neu gyfleoedd am arbedion ar gyfer y gyllideb.

Gofynnodd aelodau gwestiwn ynghylch tudalen 24 o'r gyllideb atodol a oedd yn nodi bod y setliad dros dro yn nodi bod £100,000 wedi cael ei neilltuo ar gyfer diweddaru'r gwasanaethau digidol. Roedd yr aelodau am wybod a oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r £100,000 yn cael ei ddiogelu o hyd pe bai'r asesiad dros dro'n newid.

Esboniodd swyddogion fod arwyddion o Lywodraeth Cymru'n awgrymu ni fyddai'r setliad terfynol yn is na'r un dros dro felly dylai bod y swm yn cael ei ddiogelu.

Yn dilyn craffu, nodwyd yr adroddiad a bydd unrhyw sylwadau a godwyd yn cael eu cynnwys o fewn yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb.

## 6. **RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2022/23**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

## 7. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**